Teithiau Cerdded Gwledig o Gwmpas Wrecsam

Taith Gerdded 3 – Coedpoeth – Melin y Nant i Fronwylfa (3.5 milltir)
Coed Plas Power – Aberoer - Bronwylfa- Fron deg

Parcio: Gellir parcio ym Melin y Nant, Coedpoeth, cyfeirnod grid 289501. Mae hwn yn faes parcio cyhoeddus a cheir man picnic (ar agor bob amser), siop fach a chanolfan ymwelwyr (ar agor o.r Pasg tan Fedi yn ddyddiol o 10.30am - 4.30pm; Hydref i.r Pasg ar benwythnosau.n unig).

Cludiant Cyhoeddus: Mae gwasanaeth bysiau Arriva a George Edwards yn mynd trwy bentref Coedpoeth lle dylai cerddwyr ddisgyn a cherdded i lawr Ffordd y Parc a Ffordd y Nant i Felin y Nant.

Cyfarwyddiadau

Dechreuwch ym **Melin y Nant (1),** ewch heibio i.r ganolfan ymwelwyr a cherddwch i fyny.r lon i Ffordd y Bers a throwch i.r dde. Mae **Pont y Nant (2)** 75 metr i lawr y bryn. Croeswch y bont a cherddwch i fyny.r ffordd heibio i **goetiroedd (3)** trwchus iawn.

Ar ben y bryn, trowch i.r dde at goetir bach siap triongl. Cadwch ar y llwybr syth gan fynd heibio i goed cegid gorllewinol ar y dde.

Croeswch y ffordd a cherddwch i fyny llwybr y fferm at Fferm Plas Bwcle.

Ewch heibio i.r holl adeiladau yna cadwch i.r dde gan ddilyn y llwybr a nodir gan arwyddion trwy.r giatiau ar hyd lon y fferm.

Ychydig ar ol y nant ewch trwy.r giat i.r cae ar y dde a cherddwch yn groeslinol ar draws at y gornel bellaf gan gadw.r peilonau ar eich ochr chwith.

Ceir camfa yma sydd wedi.u chuddio.n rhannol gan wrych. Efallai mai.r unig bwynt o ddiddordeb yn y cae hwn yw.r olygfa o bump gwahanol fath o beilon sy.n cario trydan o isbwerdy trydan Legacy!

Oddi yma mae.r llwybr yn dilyn ochr y gwrych ar y dde nes i chi gyrraedd camfa ar ochr y ffordd. Croeswch y ffordd ac ewch ar hyd y llwybr dros y gamfa ychydig i.r dde. Mae.r llwybr yn arwain yn syth ar draws dau gae i.r chwith o.r tai, ewch dros y gamfa ar y dde ac ewch ar hyd y ffordd.

Trowch i.r chwith ac ar ol 130 metr mae.ch llwybr yn parhau dros gamfa ar y dde, yn y man lle mae.r ffordd yn troi i.r chwith.

Ewch i gyfeiriad giat y cae sydd fwy neu lai yn syth ar draws y cae, mae camfa yn ei hymyl. Dilynwch y llwybr ar draws y cae nesaf at y gwrych ac ewch trwy.r ddwy giat mochyn fetal. Rhwng y ddwy giat, cewch gipolwg ar Blas Bronwylfa draw ar y dde.

Ar ymyl y ffordd i.r ochr dde fe welwch ddwy lon. Dewiswch y fforch ar y chwith sydd ychydig yn lletach - gwelir canllawiau pont cerrig ychydig fetrau ar ei hyd. (Gwiriwch y map i sicrhau eich bod yn mynd i.r cyfeiriad cywir.)

Ewch dros y bont, heibio i rodfa **Plas Bronwylfa (4)** ac mewn rhyw 30 metr, cyn cyrraedd rhodfa arall, gwelwch ddechrau llwybr troed rhyfeddol ar y dde.

Mae.n eich arwain trwy dwnnel (gwyliwch eich pen!) ac o amgylch rhan isaf gerddi Bronwylfa.

Mae.r llwybr yn un cyhoeddus ond mae.r gerddi yn breifat - peidiwch a chrwydro oddi ar y llwybr a nodir gan arwyddion! Croeswch y bont goncrid a dringwch at gamfa. Ewch yn syth ar draws y cae at y gamfa ger y ffordd.

Ewch ar hyd y llwybr sydd gyferbyn i gyrraedd camfa o dan y fferm a elwir yn Cae Glas, dilynwch ochr y gwrych nes i chi gyrraedd camfa sydd a llwybr estyllod ar y chwith. Croeswch hwn yna trowch i.r dde, o amgylch ymyl y cae am 20 metr at y gamfa nesaf ger y cafn dŵr. Ar ol mynd dros y gamfa hon, ewch ychydig bach i.r chwith ar draws cae agored at y gornel bellaf gan fynd heibio i gornel y cae sy.n gwthio allan ar y chwith.

Nawr dilynwch y llwybr dros ddwy gamfa arall i.r ffordd. Yn aml gwelir **cornchwiglod (5)** yn y caeau hyn yn y gwanwyn. Mae **Tan-y-Rhiw (6)** ar yr ochr dde. Ewch yn syth ar draws y tri maes nesaf ac yna trowch i'r chwith ar ddiwedd y trydydd cae yn dilyn ffin y cae i ddod o hyd i'r gamfa nesaf. Ar ol i chi fynd dros y gamfa hon dylech trowch i'r chwith a dilyn y ffin dros ddwy gamfa arall.

Ar ol yr ail gamfa dylech gadw i.r chwith gan fynd i gyfeiriad ochr chwith fferm Hafod-Wen. Ar ol mynd heibio i.r fferm, ewch i.r dde o.r ddwy giat saith bar metel at gamfa sy.n mynd a chi ar hyd lon.

Trowch i.r dde ar hyd y lon a dilynwch hi o amgylch at y gyffordd. Trowch i.r dde wrth y gyffordd, dilynwch y ffordd o amgylch i.r chwith ac ewch dros y gamfa ar y chwith ger giat y fferm.

Torrwch ar draws ddolen gyntaf y cae ac yna dilynwch ffiniau.r cae ar y chwith gyferbyn a.r goedwig ffawydd, rhan o Goedwig Melin y Nant yr Ymddiriedolaeth Goetiroedd. Mae.r gamfa ar gornel chwith isaf y cae. Ar ol mynd drosti, daliwch i ddilyn y gwrych dros ddwy gamfa arall.

Yn y trydydd cae, ychydig i.r chwith, mae hen adfeilion yn y coed. Arhoswch ar yr ochr dde iddynt ac yn y cefn dowch o hyd i hen lwybr. Ewch i.r dde ar hyd y llwybr i gyrraedd camfa.

Dilynwch y lon fetelaidd i lawr y bryn heibio i safle.r **felin gorddi (7)** at y rhyd. Mae trochwyr a.r siglen lwyd yn ymweld a.r afon yn aml yn yr ardal hon. Dros y bont droed y mae maes parcio Melin y Nant.

Lleoedd o ddiddordeb

(1) MELIN Y NANT - Mae hanes cynnar y felin yn niwlog, ond mae.r wybodaeth brin sydd wedi.i loffi yn awgrymu bod pandy.n arfer bod ar y safle yn wreiddiol. Roedd pandai yn cael eu defnyddio i lanhau, pannu a thewhau brethyn gwlan. Roedd y broses sylfaenol yn cynnwys curo.r brethyn dan ddŵr a morthwylion pren a redwyd gan olwyn ddŵr y felin. Ar ol ei bannu roedd rhaid ymestyn y brethyn a.i sychu mewn .cae deintur. neu .iard pannwr.. Byddai.r cae gwastad bach rhwng Melin y Nant ac afon Clywedog wedi bod yn ddelfrydol i.r diben hwn. Erbyn 1779 mae map yn darlunio Melin y Nant yn awgrymu ei bod wedi troi.n felin ŷd.

Yn ystod y 19eg ganrif a dechrau.r 20fed ganrif roedd gan y felin bump o denantiaid ac roedd mewn defnydd am yr holl flynyddoedd ac eithrio ambell un.

Yn 1973 prynwyd y felin a.r caeau cyfagos gan Gyngor Rhanbarthol Gwledig Wrecsam. Yna daeth y Cyngor Bwrdeistrefol gan dirlunio.r ardal o flaen y felin i ddarparu man picnic i ymwelwyr. TŶ NANT oedd cartref y melinydd a.i deulu o ddechrau.r 19eg ganrif o leiaf. Gellir gweld y gweddillion hyd heddiw ar ochr arall yr afon.

(2) Adeiladwyd **PONT Y NANT** yn defnyddio tywodfaen lleol. Mae un ochr o.r garreg wedi.i thorri yn batrwm sy.n gyffredin yn yr holl dai a adeiladwyd yng Nghoedpoeth yn y 1850au.

Prynwyd llawer o.r tir gan y Goron tua.r dyddiad hwnnw ac roedd yn cynnwys tir caeedig o.r tir comin. Roedd pris cyffredin darn o dir ar gyfer adeilad oddeutu 12 swllt, roedd y Goron yn cadw cloddio a hela.

Cyn yr 1850au mae.n debyg mai dim ond ar gyfer corneli adeiladau y byddai cerrig wedi.u torri.n cael eu defnyddio.

Ychydig uwchben y bont gallwn weld y wal o amgylch Parc Plas Power, cartref teulu Fitzhugh am 200 mlynedd. Adeiladwyd hwn mewn tri chwrs ac mae.n amgylchynu rhan o filltir sgwar yr ystad - mae wedi.i orchuddio a morter ac mae cerrig copin wedi.u gosod ar ei ben er mwyn edrych fel bylchfuriau castell.

(3) COED PLAS POWER - Mae.r goedwig hon yn gorchuddio 34 hectar (83 acer) ac yn ymestyn bron i 2km ar hyd Afon Clywedog. Mae.n perthyn i.r Ymddiriedolaeth Goetiroedd bellach a bwriedir adfer yr adran hon a choetir cynhenid yn bennaf trwy deneuo.r coed llarwydden, cegid orllewinol, sycamor a ffawydd yn olynol.

Ar ddechrau.r flwyddyn mae.r coed cyll yn cynhyrchu blodau.r gaeaf, cynffonau wyn bach hir a melyn a blodau benyw bach lliw ceirios.

Yn y gwanwyn mae llu o flodau.r gwynt yn tyfu ar lawr y coetir. Blodyn bach pinc neu wyn o deulu.r blodyn menyn ydyw. Yna ceir clychau.r gog sy.n troi.r coetir yn lle hudolus o liw golau cynnil, lle mae suran y coed, sef blodau gwyn a phum petal yn tyfu ar y pridd asidaidd rhwng y coed.

Yn nes ymlaen, bydd y tir wedi.i orchuddio gan helyglys hardd a rhedyn, er bod

y farddanhadlen, blodyn sydd ond yn gyffredin yn ne Prydain, yn tyfu yma ym Mai a Mehefin a gellir gweld mafon gwyllt ar ochr y ffordd. Mae blodau rhododendron gwyllt yn tyfu ar ddiwedd y gwanwyn. Yn yr hydref caiff y blanhigfa sycamor ei goleuo gan fasarnen goch sydd a dail sy.n troi trwy bob arlliw o goch a phiws gan wneud yr ardal yn eithriadol o brydferth.

(4) Roedd **BRONWYLFA** (y man gwylio ar ael y bryn) yn arfer bod yn fferm fechan 28 acer (11 he.) yn perthyn i Samuel Egerton a fu farw yn 1780. Fe.i gwerthwyd ym Mawrth 1805 am £940 i John Beardsworth o Wrecsam. Prynodd Edward Evans o Rockferry yr eiddo yn 1871 ac ymestyn yr ystad. Adeiladodd mewn modd ymarferol y tŷ mewn arddull Gothig gan ei ymestyn i gymryd mantais lawn o.r safle llawn cyfleusterau. Erbyn hyn mae wedi.i amgylchynu gan lawntiau, gerddi a phlanhigfeydd prydferth.

(5) Mae **CORNCHWIGLOD** (Vanellus vanellus), yn ymddangos yn y caeau hyn bob gwanwyn. Maent yn rhwydd i.w hadnabod o.u harddangosiad paru. Mae hyn yn cynnwys cwympo o.r awyr gan greu sŵn llepian i gyfeiliant galwad .piwit.. Ar un adeg roedd yr adar hyn yn cael eu hamddiffyn gan Ddeddf Seneddol, ac maent yn fanteisiol ger cnydau gan eu bod yn difa pryfaid niweidiol. Y dyddiau hyn, yn debyg i lawer o adar eraill, maent yn cael eu hamddiffyn gan Ddeddfau Amddiffyn Adar.

(6) TAN-Y-RHIW yw.r adeilad bach y tu ol i.r ysgubor sydd wedi.i drosi. Mae hwn wedi.i adeiladu i edrych fel tŷ o.r 16eg ganrif trwy ddefnyddio fframwaith hen drawstiau a ffenestri partwm diemwnt. Fodd bynnag, caiff ei ddefnyddio i gorlannu defaid!

(7) MELIN GORDDI - tua 50 metr cyn y bont droed mae gweddillion sylfeini adeilad bach. Roedd hwn yn cynnal melin a oedd yn gyrru buddai fenyn mewn llaethdy ar draws y ffordd.

Rydym yn brin o ffotograffau a gymerwyd o’r daith gerdded hon. Anfonwch eich lluniau digidol atom. Gweler y wefan am fanylion: www.wrexham.gov.uk/prow